Beth ydy odyn?

Ffwrn/popty mawr ar gyfer pobi, llosgi neu sychu defnyddiau gwahanol ydy odyn. Roedd yr odynau ar y Mynydd Du yn cael eu defnyddio i losgi calchfaen.

Craig ydy calchfaen. Mae i'w chael ar y Mynydd Du.

Pan fydd calchfaen yn cael ei losgi ar wres uchel iawn, bydd yn troi'n wyn. Calch brwd fydd yr enw arno wedyn.

Mae taenu calch brwd ar gaeau yn gallu help cnydau i dyfu.

Sut mae odyn yn gweithio?

Enw'r odyn hon ydy odyn dynnu. Mae'n gweithio trwy haenu'r tanwydd ar gyfer llosgi (sef glo) a'r graig galchfaen sy'n mynd i gael ei llosgi.

Yna bydd tân yn cael ei gynnau yn y gwaelod, ac wrth i'r haenau losgi trwodd, bydd mwy o haenau yn cael eu gosod ar y top. Mae'r calch brwd llosg yn cael ei dynnu o'r gwaelod yn ofalus.

Unwaith y bydd yr odyn wedi cael ei chynnau, gellir ei chadw yn llosgi am wythnosau ar y tro.

Cwestiynau

1. Beth sy'n digwydd i galchfaen mewn odyn?
2. Pam y mae angen i'r odyn losgi am wythnosau ar y tro?
3. Pam y mae gwneud calch yn bwysig?

Cronfa Datblygu Cynaliadwy Sustainable Development Fund
Canolfan y Mynydd Du Black Mountain Centre
ymddiriedolaeth archaeolegol DYFED archaeological trust
Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
National Waterfront Museum